| | |
|---|---|
| Dyddiad | 23 Mai 2001 |
| Amser | 9.30am |
| Lleoliad | Ystafell pwyllgora 3&4 |

**Papur ar y sefyllfa ynghylch Trefn Llywodraeth Ewrop ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ar 23 Mai 2001.**

**Cyflwyniad: y stori hyd yma**

1. Mae Llywydd y Comisiwn Ewropeaidd, Romano Prodi, wedi nodi hybu ffurfiau newydd o lywodraethu Ewropeaidd fel un o bedwar nod strategol y Comisiwn ar gyfer y cyfnod 2000-2004. Mae'r Comisiwn wedi agor y broses o gynnal deialog i geisio diffinio beth allai hyn ei olygu yn ymarferol. Mae ganddo'r potensial i olygu llawer o bethau. Ond nid yw'n eglur beth fydd yn deillio o hyn mewn gwirionedd eto.
2. Yr hyn sydd y tu ôl i'r broses yw ymdeimlad bod angen i'r Comisiwn Ewropeaidd fywiocáu ac atgyfnerthu ei berthynas â'i bartneriaid – llywodraethau, rhanbarthau, sefydliadau anllywodraethol, cymdeithasau sifil a'r cyhoedd yn gyffredinol yn yr Undeb Ewropeaidd. Mae'r posibilrwydd o ehangu ar raddfa fawr yn y blynyddoedd i ddod hefyd herio'r ffyrdd traddodiadol o gyflawni busnes.
3. Mae'r Comisiwn yn bwriadu cyhoeddi Papur Gwyn ym mis Gorffennaf ar ddechrau Llywyddiaeth Gwlad Belg. Teitl y papur fydd **"Gwella Democratiaeth yn yr Undeb Ewropeaidd" ("Enhancing Democracy in the European Union").**
4. Mae gweithgorau'r Comisiwn wedi bod yn casglu safbwyntiau am ystod o themâu, a sefydlwyd gwefan yn rhoi manylion am y cynnydd ar: europa.eu.int/comm/governance.
5. Gallai'r broses gynhyrchu gwelliannau gwirioneddol yn y ffordd y llunir ac y cyflenwir polisi Ewropeaidd. Mae budd i'r Cynulliad o annog yr ymdrech yma. Bydd gwella atebolrwydd a dull gweithio mwy agored yn y Comisiwn yn ychwanegu at ei ddilysrwydd ac yn cynorthwyo i ddyrchafu'r trafodaethau ar faterion Ewropeaidd.
6. Yn cyd-redeg â'r prosiect trefn llywodraeth mae trafodaeth ar "Ddyfodol Ewrop". Nid oes unrhyw gysylltiad ffurfiol rhwng y ddau ond mae'n bosibl – yn wir, yn debygol – y bydd y naill yn dylanwadu ar y llall. Mae'r drafodaeth ar Ddyfodol Ewrop yn un fwy tymor hir a bydd yn ymdrin â'r materion sy'n arwain at yr Gynhadledd Rhyng-lywodraethol nesaf yn 2004 a gall arwain at newidiadau i'r Cytundeb lle bo angen ac os y gellir cael pawb i gytuno.

**Beth fydd y Papur Gwyn ar y Drefn Llywodraeth yn ei ddweud?**

7. Ni wyr unrhyw un i sicrwydd, yn cynnwys y Comisiwn. Mae’r trafodaethau fu’n rhagflaenu’r Papur Gwyn wedi bod yn rhai elastig ac amwys. Mae’r cyfrannwyr wedi tueddu gweld yr hyn y maent yn ddymuno ei weld. Mae’r trafodaethau wedi amrywio o faterion ymarferol ynghylch ymdrin â’r busnes i bynciau diflas iawn fel rôl y dinasydd yn natblygiad gofodol Ewrop. Mae cymysgedd mawr o strandiau, ond mae’n annhebygol iawn y bydd pobl yn trafod y materion hyn yng nghlybiau a thafarndai Cymru.
8. Mae’r Comisiwn wedi nodi chwe thema sy’n debygol o gael eu hadlewyrchu mewn rhyw fodd yn y Papur Gwyn. Rhestrir y rhain isod gyda sylwadau byrion yn awgrymu, lle bo’n bosibl, rhai o’r materion sy’n effeithio ar Gymru:

- **Ehangu a chyfoethogi’r drafodaeth gyhoeddus ar faterion Ewropeaidd.** Mae datganoli wedi gwneud yr Undeb Ewropeaidd yn fwy gweladwy yng Nghymru a Chymru yn yr UE hefyd gobeithio. Mae’r ffocws ar faterion Ewropeaidd yn llawer dyfnach nag o’r blaen. Mae angen i Gomisiwn dilys a chyfreithlon allu dweud pam ei fod wedi gwneud penderfyniadau penodol a nodi’r cyfiawnhad am y penderfyniad: a yw’r Comisiwn yn gwneud hyn yn ddigon da? A yw materion yr Undeb Ewropeaidd yn cael proffil digonol yn y Cynulliad ac yng Nghymru yn fwy cyffredinol? A ddylai’r Cynulliad ei hun wneud mwy i esbonio materion Ewropeaidd i’r cyhoedd yng Nghymru?

- **Ymdrin â’r broses o lunio a gweithredu rheolau’r Gymuned Ewropeaidd.** Mae’r UE yn dibynnu ar reolau i hybu polisïau cyffredin mewn meysydd cytunedig. Mae ansawdd y rheolau yn dibynnu ar yr ansawdd gwneud penderfyniadau. A yw’r ymgynghori yn ddigon eang ac yn ystyrlon? A wneir defnydd digonol o gymorth arbenigol ledled yr Undeb? A yw awdurdodau rhanbarthol yn cael eu cynnwys yn ddigonol? Dim ond y bobl hynny sy’n fodlon i’r CE ymgynghori â hwy y gall y CE ymgynghori â hwy. A ydym yn fodlon chwarae rhan mwy gweithredol wrth ffurfio polisi? A gaiff adnoddau eu blaenoriaethu ar gyfer y math yma o waith?
- **Gwella’r dull o weithredu cyfrifoldebau gweithredol Ewropeaidd trwy ddatganoli.** Yn naturiol bydd datganoli o ddiddordeb i ni. Byddai mwy o ymwneud â gweinyddiaethau wedi’u datganoli fel ein un ni yn cael ei groesawu o gofio cyfrifoldebau eang y Cynulliad am weithredu rheolau’r UE. (Bydd trafodaeth ynghylch rhannu cyfrifoldebau yn ffurfio rhan o’r broses trafod Dyfodol Ewrop y cyfeiriwyd ati yn flaenorol).
- **Hyrwyddo cydlyniad a chydweithio mewn Ewrop "rhwydweithiol".** Mae hyn yn ymwneud yn rhannol â’r hyn y cyfeiriwn ato fel "llywodraeth gydlynus". Elfen arall rhwydweithio yw annog clystyrau o ranbarthau, er enghraifft, i gydweithio ar ymagweddau polisi, meincnodi, ac ati.

- **Cryfhau cyfraniad Ewrop i drefn llywodraethu'r byd.** Rôl cyfyngedig i'r Cynulliad yma. Mae gan yr UE rôl byd-eang mewn rhai agweddau – trafodaethau masanch â Sefydliad Masnach y Byd (WTO) er enghraifft, ond mewn llawer o feysydd bydd y gwledydd sy'n aelodau am bwysleisio gweithio rhyng-lywodraethol a chadw hunaniaeth cenhedloedd a rhanbarthau.
- **Cryfhau integreiddo a dimensiwn strategol polisïau ledled y cyfandir.** A yw agenda'r Comisiwn yn gwbl glir bob amser? A oes digon o ffocws i'w amcanion i alluogi'r gwledydd sy'n aelodau i ymateb ar y cyd lle bo angen gweithredu rhyng-lywodraethol?

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

1. Hyd yma nid yw'r drafodaeth wedi ei ffocysu'n glir a bydd yn ofynnol i ni astudio'r Papur Gwyn pan y'i cyhoeddir i weld beth yn union y mae'n ei gynnig. Mae'r broses hon yn darparu cyfle i ymuno mewn trafodaeth ar fecanwaith ehangach yr Undeb Ewropeaidd, yn hytrach na'r meysydd polisi penodol lle mae gennym ddiddordebau uniongyrchol. Mae gan y Cynulliad rôl gyfreithlon a dilys wrth ystyried y materion hyn ac wrth gyflwyno'i farn i Lywodraeth y DU a'r Comisiwn. Mae'n bosibl y bydd y Papur Gwyn yn gweithredu fel symbyliad i'r Cynulliad edrych yn feirniadol ar sut y mae'n ymdrin â busnes Ewropeaidd.

Cyhoeddir y Papur Gwyn ym mis Gorffennaf ar y cynharaf – mae'n bosibl y bydd y dyddiad yn llithro'n ôl. Dylai'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ystyried y papur yn llawn yn ystod ei gyfarfod cyntaf ar ôl gwyliau'r haf.

**Des Clifford**

**Cyfarwyddiaeth Materion Ewropeaidd ac Allanol**